

CYNGOR CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30yh 2il o Hydref 2018 / 2nd October 2018

Yn bresennol / Present: Cyng Bill Green, Cyng Sion Jenkins, Cyng Bryan Thomas, Cyng Alwena Williams, Cyng Emyr Rees, Cyng Geraint Davies, Cyng Euros Davies, Cyng Hazel Thomas

Ymddiheiriadau/ Apologise: Cyng Gwilym Jenkins, Cyng Daniel Evans

Materion Personol/Personal Matters:

Dim materion personol / *No personal matters.*

1.	<u>Datgelu Buddianau Personol/Declare Personal Interests</u> Datgelodd y Cyng Hazel Thomas fuddiant personol ym mhwynt 6b. <i>Cllr Hazel Thomas declared an interest in matter 6b.</i>
2.	<u>Cadarnhau'r Cofnodion / Agree Minutes</u> Cafwyd cofnodion cyfarfod mis Medi yn gywir gan y Cyng. Hazel Thomas ac fe'i eiliwyd gan y Cyng Emyr Rees. <i>The September minutes were proposed as a true record by Cllr Hazel Thomas and seconded by Cllr Emyr Rees.</i>
3.	<u>Materion yn Codi – Matters Arising</u>
a.	Cae Chwarae Cae Sarn Playing Field – Nid oedd y Cyng Eluned Jones yn bresennol i roi diweddariad. <i>Cllr Eluned Jones was not present to provide an update.</i>
b.	Dathliadau Sul y Cofio 100 mlynedd / Remembrance Sunday Centenary – Cafwyd diweddariad ar y trefniadau, cytunwyd i gwrdd ar y 25ain o Hydref yn Eglwys Llanwenog am 7.30yh er mwyn gwneud y trefniadau terfynol. Penderfynwyd hefyd gwneud coelcerth 'Beacon of Hope' am 7yh ar yr 11eg o Dachwedd ar un o ardaloedd uchaf y Plwyf dan garedigrwydd y Cyng Sion Jenkins, ni fydd ar agor i'r cyhoedd, ond mi fydd yn weladwy o sawl man yn y Plwyf gobeithio. Mi fydd yn cael ei gynnu gan y Cyngorydd gyda 'Roll Call' hefyd o'r milwyr. <i>An update was provided on the preparations for Remembrance Sunday, it was agreed to meet on the 25th October at Llanwenog Church at 7.30pm to ensure everything is in hand. It was also decided to create a Beacon of Hope at 7pm on the 11th November at one of the highest points in the Parish, with a Roll Call and lit by the Chairman, by kind permission of Cllr Sion Jenkins. This event will not be open to the public, however it is hoped that the fire will be able to be seen from several points within the Parish.</i>
c.	Afon Cledlyn River – Cafwyd ebost o ymateb wrth Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn y cyfarfod safle yn dweud bod gofal clyrio'r afon gan y 'Riparian Owner'. Mi fydd y mater o biben Dwr Cymru yn cael ei basio ymlaen iddynt.

	<p>Mae angen i'r Clerc ddanfôn yr ebost wrth CNC i'r rhai sydd wedi codi pryderon am y mater. Gofynwyd i'r Clerc hefyd ofyn i CSC os mae nhw sydd berchen y wal ar hyd yr afon gan eu bod wedi gwneud gwaith atgyweirio yno flynyddoedd yn ol. <i>An email response was received from Natural Resources Wales following the site meeting stating that the responsibility of clearing the river is with the Riparian Owner. The matter of the sewer pie has been referred to DCWW. The Clerk needs to update them of who have raised concerns within the village of the response from NRW. The Clerk was also asked to check with CCC if they own the river wall as works of repair is believed to have been carried out by them.</i></p>
ch.	<p>Hen Faes Parcio Tafarn y Cledlyn Former Car Park – Mi fydd yr ardal yn cael ei lanhau ai lefelu o fewn y bythefnos nesaf ac mae'r gwaith o dorri'r llysydfiant wedi ei roi ar restr flynyddol y Cyngor Sir. Ynglyn a phlannu blodau mi fydd yn rhaid i'r rhai sydd a diddordeb gwneud hyn ofyn am drwydded oddi wrth y Cyngor Sir. <i>The area will be cleared and levelled within the next two weeks and the works of cutting the bank grass will be put on the annual list of works for the County Council. With regards to planting bulbs, those who wish to do this will need to apply for a licence from the County Council.</i></p>
d.	<p>Cysgodfan Bws Cwrtnewydd Bus Shelter – Mae'r Cyngor Sir yn mynd i atgyweirio'r gysgodfan ond ddim rhoi un newydd yno gan fod hon wedi ei adeiladu yn arbennig ar gyfer y safle hwn. Mi fydd y gwaith yn cael ei wneud cyn y Nadolig. <i>The County Council will replace panels etc. but will not be replacing the shelter as this one was purpose built for this particular site. The works are scheduled to be done before Christmas.</i></p>
dd.	<p>Heol y Gors, Gorsgoch – Mae'r gwaith o glyrio'r mwswg ar hyd y pafin wedi ei nodi gan y Cyngor Sir ac mi fydd yn cael ei wneud yn fuan. <i>The works of clearing the moss on the pavement has been noted by the County Council and it will be undertaken soon.</i></p>
e.	<p>Golau'r gofgolofn / War Memorial Light – Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir bod y golau yn dod ymlaen pan fyddai'n dywyll a mynd i ffwrdd am hanner nos. Nid yw'r Cyngor Cymuned am meter trydan, ond i'r trefniadau fod yr un peth ac o'r blaen. <i>It was decided to request from the County Council that the light come on when it becomes dark and goes off at midnight. The Community Council do not want an electric meter, but for the arrangements to be same as before.</i></p>

4.	<p><u>Gohebiaeth – Correspondence</u> Dim/ None</p>
5.	<p><u>Taliadau a Ceisiadau am arian – Payments and Requests for Money</u> a. Cynnigwyd rhoi £20.00 i Steven John, West Wales War Memorials sydd wedi gwneud yr ymchwil fewn i milwyr sydd ar gofgolofn Drefach gan y Cyng Emyr Rees ac Eiliwyd gan y Cyng Geraint Davies. <i>It was proposed to give £20.00 to Steven John, West Wales War Memorials who has undertaken the research work into the soldiers on the war memorial in Drefach by Cllr Emyr Rees and this was seconded by Cllr Geraint Davies.</i></p>
6.	<p><u>Cynllunio - Planning</u> a. A180841 – Crugmaen Fields – Codi Sied Amaethyddol – Erection of agricultural building – Dim gwrthwynebiad / No objection b. A180889 –Penpompren, Drefach – 2 affordable dwellings - Dim gwrthwynebiad / No objection</p>
7.	<p><u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf - Date and time of next meeting</u> a. Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 6ed o Dachwedd am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach. <i>It was decided to hold the next meeting on the 6th of Novemebr at 7.30pm at Drefach Village Hall.</i> b. Clawdd Tanffynnon, Cwrtnewydd angen ei dorri gan nad yw bysiau ysgol yn medru pasio. <i>Tanffynnon Hedge, Cwrtnewydd needs to cut as school buses are finding it difficult to pass.</i></p>

Adroddiad Cwarterol / Quarterly Budget
1.4.2018-31.3.2019

Income

	Budget	Actual 30.9.2018
Balance bought forward	£8000	£8602.70
Precept	£8000	£2666.67
Grants	£0	£0.00
VAT repayment	£200	£0
Street Lights	£25	£0
Interest	£1	£0.08
Other	£500	£555 (Taith dros Fywyd), £10.85 (HMRC)
Total:	£16726	£11835.30

Expenditure

	Budget	Actual 30.9.2018
Clerk's Salary	£2400	£900
HMRC	£600	£299.49
Insurance	£500	£317.88
Expenses	£600	£98.19
Translation	£400	£204.06
S137	£1000	£279.90
BDO + Audit	£300	£250.00
Chairman's Allowance	£350	
Equipment	£100	
Membership	£150	
Footpath Cutting	£15.00	
War Memorial	£200.00	
Street Lights	£25.00	
ROSPA Inspection	£50.00	
Llogi Neuadd	£60	
Deddf Hapchwarae	£20	
Kiosk Maintenance	£200	

Walk for Life	£500	
Other	£0	£35.00 (Data Protection Act Fee)
Total:	£6755.00	£2,384.52